# Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion  cyfarfod Is Bwyllgor Cyllid gynhalwyd yng Nganolfan Gymued Penrhos am 7.00pm Nos Fercher 27ain o Orffennaf 2022**

1. Presennol
   Cyng Lowri A James Cadeirydd; Cyng Dafydd Jones-Morris; Cyng John Lewis; Cyng Dewi W Jones; Cyng Bernard Jones Cyng Ieuan Ellis a'r Clerc

2. Ymddiheuriadau
   Cyng J Pierce

3. Cod Ymddygiad
   i. Neb yn datgan buddiant

4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf  29-06-2022
   ii. Derbynnwyd fel cofnodion cywir Cyng D W Jones yn cynnig gafodd ei eilio gan Cyng J. Lewis

5. Materion yn codi o'r cofnodion
   iii. Logo Newydd – heb dderbyn prisia arwyddion
   iv. Hysbysfwrdd Ysbyty Gwynedd yn dal i ddisgwyl ymateb hefyd
   v. Cysgodfannau Esbonwyd y byddai unrhyw gysgodfan fyddai'n cael ei adnewyddu yn dod yn eiddo y Cyngor i'w ail-osod ond yn anffodus ½ cysgodfan fyddai ei angen yn y lleoliadau oedd wedi ei adnabod yn Goleufryn a Bryn Ogwen

6. Adroddiad Ariannol
   vi. Dosbarthwyd y fantolen hefo rhaglen y Cyngor oedd yn dangos gwariant o £12363.96 a throsglwyddiad i £10K yn gadael £26,284.61 yn y Cyfrif Cyfredol a bellach yn sgil y trosglwyddiad a Llog o £4.42 £45,046.39 yn y Cyfrif Cadw
   vii. Derbynwyd y fantolen
7. Archwylio
   viii. Dim diweddariad o'r Archwyliad allannol ond cost yr archwyliad mewnnol wedi cyrraedd
8. Taliadau angen sylw
   Cymeadwyo i dalu y cyfan yn ogystal a caniatau'r Clerc dalu D W Lewis am dorri'r fynwentydd yn ystod Gorffennaf gan na fyddai cyfarfod o'r Cyngor Llawn tan Mis Medi

Nodwyd yn sgil 2 Angladd fod 2 siec am £500.00 a £300.00 wedi eu derbyn

9. Ceisiadau Nawdd     Dim Cais

10. Prosiectau
    **a. Prynu tir yn Penrhosgarnedd**

Adroddodd Cyng D Jones-Morris iddo ddarganfod fod darn o dir wedi dod ar y farchnad gan Gwmni Lleol fyddai o bosib yn addas ar gyfer ehangu ein llecynau gwyrdd. Nid oedd yn credu y byddai yn addas i'w osod fel rhandiroedd  ond byddai posib creu gardd gymunedol yna Bu cryn drafodaeth cyn **cymeradwyo fod y Clerc yn cysylltu hefo'r Cwmni Gwerthu i ddatgan a chofrestru 'diddordeb' fyddai'n costio dim. Y Clerc hefyd cysylltu a'n Cyfreithwyr i gael Cyngor Cyfreithiol rhagofn bod yna amodau cyfreithiol fyddai'n ein rhwystro rhag ei ddatblygu a/neu gael mynediad at y tir**
**Cyng D Jones Morris am gysylltu hefo prisiwr proffesiynnol i ddarganfod beth fyddai'n bris teg am dir o'r fath cyn yr Ocsiwn fydd ymlaen ganol Awst**

**Unwaith byddai hynny i gyd wedi digwydd yna galw cyfarfod rhithiol arbennig o'r Cyngor Llawn i ddarganfod os yw'r Cyngor i gyd yn cymeradwyo**

**b. Ysgol Y Faenol**

Gan fod yr adeiladwyr bellach wedi gadael a'r ysgol wedi symud allan o'r Ganolfan mae'n bwysig ein bod yn ystyried pa gyfeiriad mae Cyngor Pentir am fynd i reoli'r Ganolfan newydd

Mi oedd yr 'hen prydles' ar gyfer y ganolfan bresennol yn nodi bod rhaid sefyydlu 'pwyllgor rheoli' i redeg y ganolfan ag un Cynghorydd yn cynrychioli'r Cyngor ar y Pwyllgor hwnnw a'r gweddill unai wedi eu ethol, Cyfethol a/neu gynrychioli defnyddwyr

Ni fydd y brydles newydd yn cyfeirio at bwyllgor rheoli ag erbyn hyn onibai am sawl Cynghorydd fyddai yna ddim Pwyllgor chwaith

Yn sgil y pandemig chydig iawn o ddefnydd sy'n cael ei wneud o'r Ganolfan a gwell efallai fyddai i'r Cyngor geisio ei marchnata a wedyn sefydlu 'Pwyllgor defnyddwyr' os mae dyna fyddai eu dymuniad

Gan fod gan y Pwyllgor rheoli presennol statws Elusennol mae'n rhaid dilyn rheolau stadudol y Comisiwn Elusennau

Cytunwyd i drefnu cyfarfod rhwng y Pwyllgor Rheoli a chynrychiolaeth o'r Cyngor ag i osgoi cynnal dwy noson cynnigwyd cyfarfod awr cyn y Cyngor Llawn yn Mis Medi

Bydd y cyfarfod hwnnw yn cychwyn am 6.00 Nos Iau 8fed o Fedi yng Nghanolfan Penrhos

**c Gamlins**

Deuddydd cyn y Cyngor Llawn bu cyfarfod rhwng y Cyfriethwyr y Clerc a'r Cyng L A James i drafod prydles y ganolfan newydd a chwblhau y garffosiaeth yn Glasinfryn

Rhanwyd e-bost oddiwrth Cyngor Gwynedd oedd yn diwallu sawl pryder ynglyn a'r sefyllfa rhwng Yr Eglwys a Gwynedd **Rhanwyd yr e-bost ers hynny**

Trafodwyd anfon llythyr at berchennog ty oedd wedi cysylltu ei dy a'r sustem septic tanc. Bydd yn derbyn rhybudd y bydd y tanc yn cael ei ddi-gomisynu diwedd Ionawr 2023 ag iddynt wneud trefniadau gwahanol ar gyfer eu carffosiaeth cyn hynny

11. <u>I'w trafod hefyd</u>

Cofrestr Risg/Polisia Rhannodd y Cyng L A James y gofrestr Risg oedd wedi ei addasu. Mae wedi amlygu y materion sydd angen sylw a cytunwyd i gyfarfod diwedd Awst i drafod y petha sydd angen sylw.

Cytunwyd hefyd i symud yr eitem yma i ddilyn materion ariannol fel fod y gofrestr yn cael y sylw priodol yn hytrach nag ar ddiwedd cyfarfod

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10